



## Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cyngor Sir Powys**

**Cyngor Sir Powys  
Neuadd y Sir  
Llandrindod  
LD1 5LG**

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

16/01/2023

Dyddiad

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.**

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i:

[psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

# Cyngor Sir Powys

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cymorth Cartref
Darparwr Cofrestredig	Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Powys
Lleoedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Saesneg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	Arolygiad cyntaf ers i'r gwasanaeth gofrestru o dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

## Crynodeb

Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers i'r gwasanaeth gofrestru o dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (RISCA). Gwnaethom ystyried y pedwar maes gwasanaeth, sef Ailalluogi, Gofal Cartref, Cymorth yn y Cartref a Byw â Chymorth.

Mae'r bobl ar draws y gwasanaeth yn derbyn gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gan dîm o staff brwdfrydig, gofalgar ac ymrwymedig. Mae'r cynlluniau personol yn fanwl ac yn dangos dewisiadau'r bobl, sut yr hoffent i'w anghenion gofal a chymorth gael eu diwallu a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Mae'r bobl sy'n cael cymorth 24 awr yn cael eu hannog i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch cyflogaeth a hamdden ac mae'r staff yn ymrwymedig i'w cefnogi i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt.

Gan fod problemau gyda'r system rota electronig, mae rhai pobl sy'n cael gofal cartref ac yn derbyn gwasanaeth ailalluogi wedi methu galwadau gan bobl. Mae hyn wedi achosi gofid diangen ar yr unigolion, ac mewn rhai achosion, ar aelodau o'u teuluoedd hefyd. Mae hyn hefyd yn effeithio ar foral y staff gofal. Cawsom sicrwydd gan y darparwr fod camau'n cael eu cymryd yn hyn o beth. Mae hwn yn faes i'w wella.

Mae'r rheolwyr a'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a rhoddwyd adborth cadarnhaol ganddynt ar yr hyfforddiant a'r gefnogaeth maent yn eu cael sy'n eu helpu i ddatblygu'n bersonol ac yn eu gyrfa.

Mae trefniadau ar waith drwy brosesau sicrhau ansawdd parhaus i adolygu safonau gofal a chymorth yn rheolaidd. Caiff problemau eu nodi a rhoddir sylw iddynt er mwyn gwella'r gwasanaeth yn barhaus.

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r bobl sydd angen cymorth i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau yn ei dderbyn. Mae'r cymorth hwn yn cael ei roi gan staff, perthnasau'r unigolion neu wasanaethau eirioli. Mae cynlluniau personol yn manylu ar yr hyn sy'n bwysig iddynt. Caiff barn y bobl ei cheisio yn rheolaidd drwy gynnal adolygiadau o'u gofal a holiaduron. Gallant gael gafael ar wybodaeth mewn iaith ac mewn fformat sy'n briodol i'w hanghenion. Mae dogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Caiff anghenion llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol y bobl eu diwallu. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth am anghenion iechyd y bobl. Mae'r trafodaethau a gawsom â'r staff a'r ddogfennaeth a welsom yn dangos y caiff mewnbwn gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol ei geisio'n brydlon pan fo angen. Mae'r bobl, yn enwedig y rheini sy'n cael cymorth 24 awr, yn cael eu hannog a'u cefnogi i gynnal cydberthnasau â theulu a ffrindiau ac i roi cynnig ar weithgareddau newydd sydd o ddiddordeb iddynt. Mae aelodau o deuluoedd ar draws y gwasanaethau yn canmol y cymorth y mae eu perthnasau a nhw eu hunain yn ei gael gan y gweithwyr gofal. Dywedodd un person sy'n derbyn gwasanaeth ailalluogi sut mae'r staff wedi ei helpu i gyflawni ei nodau ac i adfer ei annibyniaeth drwy "*giving them a boost*" and "*cheering them on.*"

Caiff y bobl eu hamddiffyn yn gyffredinol rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys asesiadau risg manwl i'r staff eu dilyn. Rhoddir gwybod am ddigwyddiadau ac ymchwiliad iddynt a'u cofnodi'n briodol er mwyn dysgu gwersi. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ac mae polisiâu a gweithdrefnau ar gael iddynt i'w tywys drwy eu hymarfer. Mae polisi cwynion clir ar waith a dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gwybod sut i godi pryder. Yn sgil problemau gyda'r system rota electronig, mae rhai pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ailalluogi a'r gwasanaeth gofal cartref yn wynebu risg bosibl o niwed os na fydd staff yn cyrraedd i ddarparu eu gofal a'u cymorth.

Mae'r bobl sydd ei angen yn cael cymorth i reoli eu cytundeb tenantiaeth ac i gynnal eu cartref er mwyn gwneud yn siwr ei fod yn ddiogel. Maent yn cael cymorth i wneud penderfyniadau am eu cartref a'r ffordd y mae'n edrych.

## Gofal a Chymorth

Dyweddod y bobl ym mhob un o'r gwasanaethau eu bod yn hapus gyda'r gofal a'r cymorth a roddir iddynt. Mae rhai o'r sylwadau a gawsom yn cynnwys y canlynol: nid yw fy mherthynas *"never been so well supported, cared for and cherished for years,"* *"staff are very good and will do anything I ask,"* a *"the management should be proud of their staff."* Fodd bynnag, ar gyfer y gwasanaeth ailalluogi a'r cymorth cartref, mae rhai pobl wedi methu galwadau yn sgil methiant yn y system rota electronig. Mae hyn wedi parhau ers peth amser gan wneud i rai pobl deimlo'n bryderus. Mae'r staff yn poeni'n wirioneddol am y bobl ac yn dweud bod methu galwadau yn effeithio ar eu moral. Mae'r darparwr wedi rhoi systemau ar waith i geisio lleihau'r nifer o alwadau i'r bobl a gaiff eu methu. Maent wrthi'n ceisio mynd i'r afael â'r mater. Mae hyn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Caiff anghenion y bobl eu hasesu cyn iddynt dderbyn y gwasanaeth. Mae'r bobl a / neu eu cynrychiolwyr yn rhan o'r broses hon. Ar ôl i'r gwasanaeth ddechrau, cynhelir asesiadau pellach gyda'r bobl i bennu'r hyn sy'n bwysig iddynt. Mae'r tîm rheoli yn cydnabod yr angen i ffurfioli proses asesu'r darparwr a'i hadolygu'n rheolaidd wrth i anghenion y bobl newid. Cynhelir cyfarfodydd gyda'r tîm rheoli i drafod hyn ac er mwyn mynd i'r afael ag ef.

Mae'r bobl a / neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio ac adolygu eu hanghenion gofal. Roedd y cynlluniau personol a welsom yn fanwl er mwyn i'r staff eu dilyn. Mae tystiolaeth yn dangos bod adolygiadau o anghenion gofal a thrafodaethau gyda'r bobl yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Cadarnhawyd hyn gan y bobl y gwnaethom siarad â nhw. Caiff cynlluniau eu diweddarau i adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r anghenion gofal. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y cânt wybod am y newidiadau mewn ffordd amserol. Caiff cofnod o ganlyniadau personol y bobl eu cofnodi ac mae'r staff yn cefnogi'r bobl i'w cyflawni. Yn achos y gwasanaeth byw â chymorth, gwelsom sut roedd y staff yn gweithio gyda'r bobl i wneud yn siwr eu bod yn gwneud yr hyn sy'n bwysig iddynt, megis cadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau neu fynd i ddigwyddiadau cymdeithasol.

Caiff y bobl eu cefnogi i reoli eu hiechyd corfforol. Mae systemau ar waith i reoli meddyginiaethau'n ddiogel. Caiff unrhyw gamgymeriadau eu nodi a'u hystyried yn gyflym. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar feddyginiaethau. Mae'r polisi meddyginiaeth a gaiff ei ddefnyddio ar draws y gwasanaethau wrthi'n cael ei adolygu er mwyn adlewyrchu'r canllawiau cyfredol. Nid yw wedi cael ei adolygu ers 2014. Cawsom sicrwydd gan yr Unigolyn Cyfrifol fod camau'n cael eu cymryd yn hyn o beth.

Mae mesurau ar waith i gadw'r bobl mor ddiogel â phosibl. Mae'r ddogfennaeth gofal ym mhob gwasanaeth yn fanwl, gan gynnwys yr asesiadau risg i'r staff eu dilyn. Caiff y staff hyfforddiant a chymorth da gan y tîm rheoli. Maent yn gwybod â phwy i gysylltu os byddant yn teimlo bod llesiant y bobl mewn perygl. Mae polisiâu a gweithdrefnau ar gael iddynt i'w tywys drwy eu hymarfer. Caiff y gwasanaeth ei oruchwylio'n dda gan y tîm rheoli er mwyn

nodi problemau a mynd i'r afael â nhw yn gyflym. Mae systemau ar waith i fynd i'r afael â phroblem colli galwadau.

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu ledled Powys. Mae swyddfeydd wedi'u lleoli ym mhob rhan o'r sir i gefnogi'r staff. Caiff pob darn o wybodaeth ei chadw'n ddiogel a'i defnyddio gan unigolion priodol yn unig.

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi



## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r tîm rheoli wedi hen sefydlu, yn brofiadol iawn ac yn goruchwyllo'r gwasanaeth yn dda. Maent yn gefnogol iawn o'u staff ac yn hyrwyddo'r cyfle i ddatblygu eu gyrfa yn y sefydliad. Cadarnhawyd hyn gan y staff y gwnaethom siarad â nhw. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r pedwar maes gwasanaeth ac yn siarad â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r staff. Mae prosesau ar waith er mwyn adolygu ansawdd y gwasanaeth yn rheolaidd. Mae systemau ar waith er mwyn i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r staff roi eu barn am y gwasanaeth. Caiff y galwadau a fethir eu goruchwyllo'n dda. Gwelsom eu bod yn ymchwilio iddynt er mwyn dysgu gwersi. Gwnaeth rhai o'r staff godi pryderon ynghylch y gwasanaeth y tu allan i oriau a'r hyn a ddisgwylir ohonynt. Gwelsom fod canllawiau clir ar waith i gefnogi'r staff, ond mae'r tîm rheoli yn cydnabod y gall hyn fod yn straen ar staff a'u bod am ategu'r gweithdrefnau mewn cyfarfodydd tîm.

Mae systemau ar waith i reoli unrhyw bryderon a godir. Mae'r darparwr yn mynd ati'n rhagweithiol i geisio datrys unrhyw broblemau sy'n effeithio ar lesiant y bobl a'r staff. Er enghraifft, dod o hyd i hyfforddiant ar gyfer y staff sy'n darparu gofal i bobl ag anghenion cymhleth a all fod yn her i'r rheini sy'n eu cefnogi a'r amgylchedd o'u hamgylch. Dywedodd y rheolwyr wrthym fod hyn wedi rhoi mwy o hyder i'r staff a'i fod wedi arwain at ganlyniadau da i'r bobl. Mae hyn yn cynnwys rhoi'r gallu i'r bobl aros yn eu cartref eu hunain am gyfnod hwy gyda'r cymorth cywir.

Mae'r arferion recriwtio yn helpu i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae prosesau da ar waith ar gyfer recriwtio staff a'r defnydd o staff asiantaeth a'r broses o'u sefydlu. Cadarnhaodd y staff eu bod yn cael eu sefydlu'n dda a'u bod yn cael hyfforddiant a chymorth da i sicrhau eu bod yn hyderus yn eu rôl. Mae gan bob aelod o'r staff gontractau cyflogaeth a lle y bo'n briodol maent yn cael digon o amser i deithio rhwng galwadau gofal.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw o bob gwasanaeth fod cyfleoedd i gael hyfforddiant yn dda. Mae'r dogfennau a welsom yn dangos bod y staff yn cael amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddiant, felly maent yn gwybod sut i ddiwallu anghenion y bobl. Dywedwyd wrthym eu bod yn cael eu hannog i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth ac maent yn cael cyfarfodydd un i un rheolaidd gyda'u rheolwr llinell ac arfarniad blynyddol o'u gwaith. Cadarnhawyd hyn gan y ddogfennaeth a welwyd. Caiff cyfarfodydd staff rheolaidd eu cynnal er mwyn i'r staff drafod unrhyw broblemau a rhannu syniadau.

## Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

## gyhoeddi

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

## Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
21	Mae methiannau yn y system rota electronig sy'n golygu nad yw rhai o'r bobl yn cael eu galwadau gofal a neilltuwyd iddynt.	Newydd

**Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi**

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert\_Report\_Published\_Actual\_Donot\_Delete

**Adroddiad terfynol heb ei  
gyhoeddi**